**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Giles Thorley
Prif Swyddog Gweithredol
Banc Datblygu Cymru

2 Mai 2024

Annwyl Giles,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Ebrill. Oherwydd cyfyngiadau amser, roedd nifer o gwestiynau na chawsom gyfle i'w trafod yn y sesiwn.

**Buddsoddiadau Ecwiti**

A allwch roi rhagor o fanylion am brosesau'r Banc o ran buddsoddiadau ecwiti:

- Pa ganllawiau a roddir i fusnesau er mwyn iddynt allu deall popeth sy'n ymwneud â buddsoddiad ecwiti?
- A ydych weithiau'n penodi'r un Buddsoddwr Gyfarwyddwr i eistedd ar fyrddau sawl cwmni y mae'r Banc Datblygu wedi buddsoddi ynddynt?
- Faint o reolaeth sydd gan y Banc Datblygu dros y ffordd y mae Buddsoddwr Gyfarwyddwr yn gweithredu a'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud ar ôl iddo gael ei benodi?

Er mwyn cysoni'r wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ystod y sesiwn â'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom, byddwn yn ddiolchgar hefyd pe gallech gadarnhau sut y cytunir ar dâl Buddsoddwr Gyfarwyddwr. Dywedodd Rhian Elston mai mater i'w drafod rhwng y cwmni a'r buddsoddwr gyfarwyddwr yw tâl, ac mai nhw sy'n penderfynu faint y dylid ei dalu i'r unigolyn hwnnw. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth ysgrifenedig sy'n awgrymu y gallai'r Banc Datblygu chwarae rhan, neu ei fod efallai wedi chwarae rhan yn y gorffennol, wrth bennu tâl Buddsoddwr Gyfarwyddwyr.

**Cwynion**

Yn ein sesiwn, fe wnaethoch esbonio bod y Banc wedi cael 17,065 o geisiadau y llynedd a'i fod wedi cael 11 cwyn. Hoffwn wybod a yw'r lefel hon o gwynion yn arferol ar gyfer y Banc ac ar gyfer y diwydiant benthyca ariannol yn fwy cyffredinol. A fyddech cystal â rhoi gwybod inni:

- Faint o gwynion y mae'r Banc Datblygu wedi'u cael ym mhob blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf?
- A yw'r Banc Datblygu wedi gwneud unrhyw waith meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg eraill o ran y lefel arferol o gwynion y gallent ddisgwyl eu cael? Os felly, a yw'r cwynion presennol yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Banc?

Ar fater ehangach, byddai'n dda gennyf hefyd gael gwybod a yw'r Banc wedi gwneud unrhyw waith i ddeall sut y mae'r Banc yn cael ei weld gan fusnesau sydd naill ai wedi bod yn aflwyddiannus wrth geisio cael cyllid gan y Banc neu nad ydynt erioed wedi gwneud cais i'r Banc am gymorth.

**Cyfrifon blynyddol Banc Datblygu Cymru**

Nodaf adroddiadau yn y wasg ynghylch colledion o dros £62 miliwn a nodir yng nghyfrifon y Banc Datblygu ar gyfer 2022/23. Yn yr adroddiadau, mae dyfyniad gan lefarydd ar ran y Banc yn dweud ei bod yn priodoli'r colledion hyn i gynnydd sylweddol yn y cyfraddau colled a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r taliad darpariaethau, a arweiniodd at gynnydd o 41 y cant yn y lwfans colled a gostyngiad yng ngwerth teg buddsoddiadau'r Banc.

Yn 2017, argymhellodd rhagflaenydd y Pwyllgor y dylai Cyllid Cymru, sef rhagflaenydd y Banc Datblygu, "lunio gwybodaeth ochr yn ochr â'i gyfrifon blynyddol a fyddai'n caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb weld a yw'r sefydliad wedi talu ei gostau yn y flwyddyn flaenorol." Nod yr argymhelliad hwn oedd sicrhau mwy o dryloywder ynghylch materion ariannol Cyllid Cymru a chaniatáu i'r dinesydd cyffredin yng Nghymru ddeall pa mor iach yw'r Banc a'i fuddsoddiadau. Mae'n werth nodi, yn ôl yn 2017, fod Gareth Bullock wedi dweud bod cyfrifyddu technegol mewn gwirionedd yn llesteirio'r hyn y byddai ef yn ei alw'n ddealltwriaeth arferol, dydd-i-ddydd o'r hyn y maent yn ei wneud.

Fel y gwyddoch, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad mwy trylwyr i waith y Banc Datblygu eleni yn lle cynnal ein sesiwn graffu flynyddol arferol a fyddai wedi trafod adroddiad blynyddol y Banc ar gyfer 2022-23. Felly, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ofyn y cwestiynau a ganlyn:

- A fydd y golled o dros £62 miliwn a adroddwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn cael unrhyw effaith ar allu'r Banc Datblygu i gyflawni'r nodau a'r amcanion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a fydd y colledion hynny'n golygu bod llai o arian ar gael i'r Banc i'w roi ar fenthyg yn y dyfodol?

- Er fy mod yn gwerthfawrogi esboniad y Banc o'i faterion ariannol a nodir yn erthygl y wasg uchod, ac er fy mod yn deall bod byd cyllid yn gymhleth, nid wyf yn teimlo bod ymateb y Banc yn un y byddai'n hawdd i'r dinesydd cyffredin yng Nghymru ei ddeall. Yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Bumed Senedd, byddwn yn annog y Banc Datblygu i gyhoeddi gwybodaeth ochr yn ochr â'i gyfrifon blynyddol – mewn Cymraeg a Saesneg clir – a fyddai'n caniatáu i unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb weld a yw'r sefydliad wedi talu ei gostau yn y flwyddyn flaenorol a deall effeithiau ymarferol unrhyw golledion neu wargedion a nodir yn y cyfrifon.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu cynnal sesiwn graffu flynyddol gyda'r Banc cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24.

Byddwn yn croesawu ymateb gennych i'r cwestiynau uchod erbyn 16 Mai er mwyn helpu'r Pwyllgor i gwblhau ei adroddiad ar gyfer yr ymchwiliad hwn mewn modd amserol.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg